# Cymhorthydd Dysgu Lefel 2

**Cyfeirnod y Swydd:** YYGC00339W1RDE
**Lleoliad:** Ysgol Glan Clwyd
**Cyflog:** Graddfa 3 - £17,834 - £18,132
**Oriau:** 32.5 awr yr wythnos, Tymor Ysgol + 5 HMS
**Math o gytundeb:** Swydd Tymor Penodol 01/09/2024 – 31/08/2025
Swydd allanol

***Beth am ymuno â'r Tim o Gymhorthyddion yma yn Ysgol Glan Clwyd?***

Rydym yn awyddus i gynnig cyfle i unigolyn sy'n ystyried gyrfa yn y maes addysg Gymraeg i ymuno gyda ni am gyfnod o 12 mis trwy'r *cynllun "Datblygu Capasiti'r gweithlu cyfrwng Cymraeg*".

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y swydd, mae angen i chi fod yn fyfyriwr blwyddyn gap sy'n ystyried symud ymlaen i'r brifysgol i hyfforddi i fod yn athro. Bydd yr ysgol yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth.

Rydym yn chwilio am Gymhorthydd Dysgu brwdfrydig sydd â sgiliau trefnu ardderchog. Bydd deilydd y swydd yn gweithio o dan gyfarwyddyd uniongyrchol staff dysgu yn y dosbarth, gydag athro fel arfer, i helpu disgyblion i ddysgu a rhoi cymorth yn gyffredinol i athrawon gyda rheoli
disgyblion a'r dosbarth.

Mae'n hanfodol fod gennych sgiliau Llythrennedd a Rhifedd ardderchog a gwybodaeth sylfaenol am ddefnyddio systemau cyfrifiadurol.
Bydd y penodiad yn amodol ar Wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

**Os hoffech fwy o fanylion am y swydd uchod, gellir cysylltu â'r ysgol ar 01745 582611.**
Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein drwy wefan www.sirddinbych.gov.uk; **mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais i gael eu hystyried.**

Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn pythefnos o'r dyddiad cau, fe ddylech gymryd yn ganiataol nad ydych ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad.

**Dyddiad Cau: Dydd Mercher 10/07/24**

***This Advert is for Teaching Assistants at Ysgol Glan Clwyd for which the ability to speak Welsh is an essential requirement.***

**Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.**